# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fercher 20fed o Ionawr 2021 am 8.00yh drwy Zoom.

**PRESENNOL:** Cyng W Evans, J Phillips, G Evans, H James, R Gallie, D Lewis, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng I Saer.

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 18fed o Dachwedd a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Cyng H James – Eitem 7 Rhent tir, Cyng J Lewis (CSC) – Eitem 13 Cynllunio.

**MATERION YN CODI:**
Dywedodd y clerc ei fod wedi methu cysylltu a BT drwy ddefnyddio y linc roeddent yn darparu ynglŷn a phrynu y ciosg yng Nghwmfelin Mynach. Clerc i gadw ceisio cysylltu a BT.

Mae'r cloddiau o amgylch cae chwarae Blaenwaun wedi eu torri.

Mae SSE wedi cadarnhau adnewyddu y cytundeb trydan i'r neuadd gymunedol.

**2021/22 PRAESEPT:**
Trafododd y Cyngor anghenion y praesept am 2021/22 a penderfynwyd ei gadw yn £8000.00 am y flwyddyn i ddod.

**ARCHWILYDD MEWNOL:**
Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo gofyn i Rosemarie Davies i ymgymryd yr archwiliad mewnol am 2020/21.

**RHENT TIR CYNGOR:**
*(Datganodd Cyng H James ddiddordeb a gadawodd y cyfarfod)*
Cymeradwyodd y Cyngor gadw rhent tir cyngor yn £50.00 yr erw am 2022/23.
*(Gwnaeth Cyng H James ail-ymuno a'r cyfarfod.*

**ADRODDIAD ARCHWILIWR ALLANOL:**
Mae adroddiad yr archwiliwr allanol am 2019/20 wedi ei dderbyn. Roedd popeth yn foddhaol a ni chodwyd unrhyw faterion.
Mae Archwilio Cymru hefyd wedi hysbysu'r Cyngor ei bod yn mynd i ymgymryd archwiliad gweithrediadau sylfaenol am 2020/21. Fe fydd yr archwiliad mwy dwfn hyn yn digwydd ym mhob cyngor cymuned yn ei tro unwaith bob tair blynedd yn y dyfodol.

**GOHEBIAETH:**
Hysbysodd Llywodraeth Cymru y Cyngor taw yr uchafswm y gallent wario o dan Rhan 137 (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 am 2021/22 yw £8.41 yr etholwr.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Watkins – rhent tir | £102.75 |
| CCC – praesept 3ydd rhandaliad | £2666.67 |
| GVO wind No. 24 (Rhydgoch) – lles cymunedol | £2834.04 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| SSE – trydan i'r neuadd gymunedol (24/07 – 09/11/2020) | £11.00 |
| Archwilio Cymru – archwilio cyfrifon 2019/20 | £262.25 |
| Dŵr Cymru – cae chwarae Blaenwaun (17/07/20 – 06/01/21) | £13.83 |
| Y Cardi Bach – hysbyseb clerc/rhentu tir | £20.00 |

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £10,574.24 |
| Cyfrif Trysorydd | £15,147.81 |

**CYNLLUNIO:**
*(Gwnaeth Cyng J Lewis CSC ddatgan diddordeb a gadael y cyfarfod)*
PL/01034 – estyniad i breswylfa sy'n bodoli - Pencraig Uchaf, Cwmbach, Hendygwyn ar Daf SA34 0DT

**U.F.A.**
Cafodd dau fater yn ymwneud a priffyrdd eu codi.
Mae'r arwydd croesffordd yn Passby wedi ei difrodi.
Mae dŵr yn sefyll ar yr heol o Llanwinio i Gellywen ger y cyffordd at Cwmbach.
Clerc i hysbysu adran Priffyrdd CSC.

Gan fod yna ddim ragor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher 17eg o Fawrth 2021 drwy Zoom.**